**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol ac ati) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 30A.2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os bydd Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Rheoliadau yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol ac ati.) Cafodd Rheoliadau 2019 eu gosod gerbron Senedd y DU ar 8 Rhagfyr 2019. Mae'r rheoliadau i'w gweld yma:

   http://www.legislation.gov.uk/uksi/2019/526/made

**Crynodeb o'r Rheoliadau a'u hamcan**

3. Nod y Rheoliadau, yn bennaf, yw cywiro hen gyfeiriadau sy'n gysylltiedig â chyfraith Ewrop mewn deddfwriaeth ddomestig sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, pan fydd Cyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd wedi eu diwygio neu eu disodli, ond nad yw'r cyfeiriadau a ddiweddarwyd atynt wedi'u diwygio mewn deddfwriaeth ddomestig.

4. Mae'r diwygiadau yn cynnwys ystod eang o ddeddfwriaeth ym maes amaethyddiaeth, iechyd anifeiliaid, iechyd planhigion, gwarchod amgylcheddol, bwyd, gwastraff, pysgodfeydd a dŵr.

5. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn gywir cyn i'r DU ymadael â'r UE. Y rheswm am hyn yw nad yw hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth o angenrheidrwydd yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir (a ddiweddarwyd); ac mae perygl felly na fydd y llyfr statud yn gweithio'n iawn, ac nad oes modd ei ddefnyddio, o ganlyniad i hynny.

6. Mae'r Rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm hwn yn amrywio o ran y rhychwant tiriogaethol a'r defnydd ohonynt; byddai diwygiad neu ddirymiad gan y Rheoliadau â'r un rhychwant â'r ddarpariaeth sy'n cael ei ddiwygio neu ei ddirymu. Er, mae'r diwygiad sy'n gysylltiedig â Deddf yr Amgylchedd 1995 ond yn cynnwys ac yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

7. Mae'r OS y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymwneud ag ef wedi ei osod gerbron Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol, a bydd yn dod yn gyfraith yn awtomatig oni bai y bydd un o aelodau'r naill Dŷ neu'r llall yn Senedd y DU yn gwrthwynebu hynny. Os na

fydd unrhyw wrthwynebiad o'r fath, byddai'r darpariaethau sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol y cyfeirir ati yn y Memorandwm hwn yn dod i rym ar y 29 Mawrth 2019.

**Y darpariaethau sydd i'w gwneud gan y Rheoliadau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

8. Mae Rheoliad 2 yn diwygio'r cyfeiriad at Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE yn y diffiniad o "drwydded amgylcheddol" yn adran 56(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, fel y mae'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr.

9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 8 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff  Nid yw'r pynciau hyn wedi'u rhestru fel cymalau cadw o dan Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

**Pam mae’n briodol i’r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon?**

10. Fel a nodwyd o dan baragraff 3, mae angen gwneud nifer o ddiwygiadau i gywiro hen gyfeiriadau at gyfraith Ewropeaidd o fewn deddfwriaeth ddomestig, cyn i'r DU ymadael â'r UE, i sicrhau bod modd parhau i ddefnyddio'r llyfr statud ar gyfer y meysydd hyn.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ac yn gymesur i ymdrin â'r diwygiadau hyn yn y Rheoliadau hyn oherwydd rhychwant tiriogaethol y deddfiadau sy'n cael eu diwygio.  Hefyd, byddai gwneud y diwygiadau technegol hyn ar wahân, nid yn unig yn creu anawsterau drafftio, ond gallai hefyd arwain at gyfraith ansicr nad oes modd ei defnyddio.

**Goblygiadau ariannol**

12. Ni ddisgwylir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn.

**Lesley Griffiths AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

Mawrth 2019